# Cylchlythyr Wythnosol

Dyddiad: 20.10.17

## YMWELD AG EGLWYS Y SANTES FAIR – *VISIT TO ST.MARY'S CHURCH.*

Fel rhan o weithgareddau'r dosbarthiadau mewn Addysg Grefyddol, aeth disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad ag Eglwys y Santes Fair yn Yr Wyddgrug fore Mawrth. Mwynhaodd pawb yr ymweliad yn fawr. Bydd gwaith yn seiliedig ar yr ymweliad, yn digwydd yn y dosbarthiadau hyn yn awr.

*As part of the classes' Religious Education work, Years 3 and 4 pupils visited St Mary's Church in Mold on Tuesday morning. Everyone very much enjoyed the visit. Further work based on the visit will now be carried out in the classes.*

## DIWRNOD DIOLCHGARWCH YR YSGOL – *SCHOOL'S HARVEST THANKSGIVING DAY.*

Cynhelir Gŵyl Ddiolchgarwch yr ysgol ddydd Mercher nesaf, Hydref 25ain. Yn y bore am 9.30 a.m. bydd gwasanaeth Uned y Blynyddoedd Cynnar yn Neuadd yr ysgol. Yn y pnawn, cynhelir gwasanaeth Blynyddoedd 1-6 yng Nghapel Bethesda – ac fe'ch hatgoffir mai gwasanaeth i'r disgyblion eu hunain fydd hwn, a bydd aelodau o Gymdeithas y Pnawn yn ymuno â ni. Gwneir casgliad yn yr Ŵyl Ddiolchgarwch at ein helusen ddewisiedig am eleni, sef Cymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru, a gall y disgyblion ddod â chyfraniadau efo nhw a byddwn yn ei gasglu yn yr ysgol yn ystod y dydd.

*The school's Harvest Thanksgiving festival will be held next Wednesday, October 25th. In the morning, the Early Years Unit's service will be held at 9.30 a.m. in the school hall. In the afternoon, the Years 1-6 pupils service will be held at Bethesda Chapel – and you are reminded that this is a service for the pupils only, and members of the Afternoon Society will be joining us. A collection will be made during the day towards our chosen charity, the North Wales Mountain Rescue Team, and the pupils can bring their contributions with them and we will collect it during the day.*

## GWEITHGAREDDAU DIGIDOL – *DIGITAL ACTIVITIES.*

Treuliodd Mr Robin Williams, athro ymgynghorol mewn TGCh, ddiwrnod gyda disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 yn cwblhau gweithgareddau digidol ddydd Mercher. Mwynhaodd y disgyblion y profiadau a gyflwynwyd iddynt, yn fawr iawn.

*Mr Robin Williams, an ICT advisory teacher, spent a day doing various digital activities with Years 1 and 2 pupils on Wednesday. The pupils very much enjoyed the various experiences presented to them.*

## PÊL DROED – *FOOTBALL.*

Addawyd yn y Cylchlythyr diwethaf y byddwn yn rhoi gwybod i chi sut y bu i'n tîm pêl droed wneud yn y gystadleuaeth leol ddydd Gwener diwethaf. Chwaraeodd yr aeloadu yn arbennig o dda ond ni fu'r canlyniadau yn arbennig o lwyddiannus y tro hwn. Ond yn bwysicach na hynny, mwynhaodd pawb chwarae'r gêmau a chael cynrychioli'r ysgol.

*As promised in last week's Newsletter, I am giving you a report upon the games played by the school's football team last Friday. The members played exceptionally well although the results were not too successful this time. But more importantly, everyone enjoyed playing the games and representing the school.*

## BWS MINI'R YSGOL – *SCHOOL MINI BUS.*

Mae'n siwr fod pawb wedi gweld ein bws mini hardd erbyn hyn – yr yden ni mor falch ohono. Rhaid dweud cymaint o gaffaeliad ydyw i ni fel ysgol a'r defnydd a wneir ohono yn amhrisiadwy. Diolchir unwaith eto i ymddiriedolwyr Cronfa Dorothy Hall am eu haelioni. Bydd aelodau ychwanegol o'r staff addysgu yn derbyn hyfforddiant priodol I'w galluogi i'w yrru yn y dyfodol agos.

*Let's hope that everyone has seen our wonderful mini bus by now – we are so very proud of it. It is such an asset to the school and its use is immeasurable. Once again the Dorothy Hall charity is thanked most sincerely for its generosity. Additional members of the teaching staff will receive appropriate training to enable them to drive it in the near future.*

## SEREMONI CYFLWYNO GWOBR ARIAN Y SIARTER IAITH – *LANGUAGE CHARTER SILVER AWARD CEREMONY.*

Aeth Mabli a Gethin, dau o'n llysgenhadon iaith i dderbyn tystysgrif Gwobr Arian y Siarter Iaith yn Ysgol Bro Alun bore Mawrth. Rhoddodd y ddau gyflwyniad ardderchog yn seiliedig ar weithgareddau'r Siarter yn yr ysgol i'r gynulleidfa oedd yn bresennol.

Llongyfarchiadau mawr a bydd yr ysgol yn awr yn mynd ymlaen am y statws Aur.

*Mabli and Gethin, two of our Language Ambassadors, went to receive the Language Charter Silver award at Ysgol Bryn Alun on Tuesday morning. The two gave an excellent presentation on the Charter activities in school to the audience present. Many congratulations, and all the best as the school now goes on for the Gold status.*

## DISGO HWYL HYDREF – *AUTUMN FUN DISCO*.

Fe'ch hatgoffir bod Ffrindiau Glanrafon yn trefnu disgo Hwyl Hydref ar gyfer disgyblion yr ysgol bnawn Iau nesaf, Hydref 26ain. Bydd sesiwn ar gyfer disgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 a 2 o 3-4 p.m. a'r un ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3,4,5 a 6 o 4.15 – 5.15 p.m. Caiff y disgyblion (yn enwedig y Derbyn a Blwyddyn 1 a 2) ddod i'r ysgol yn eu gwisg ffansi neu ddillad parti yn y bore. Diolchir i bwyllgor Ffrindiau Glanrafon am drefnu digwyddiad o'r fath ar gyfer ein disgyblion fel hyn.

*You are reminded that the Friends of Glanrafon are organising an Autumn Fun disco for the pupils next Thursday, October 26th. There will be a session for the Reception and Years 1 and 2 pupils from 3-4 p.m. and the one for Years 3,4,5 and 6 from 4.15 – 5.15 p.m. The pupils (especially so the Reception and Years 1 and 2 pupils) can come to school in fancy dress or party clothes in the morning. The Friends of Glanrafon committee is thanked for organising such an event for our pupils.*

## PRYDLONDEB – *PUNCTUALITY*

Atgoffir pawb am bwysigrwydd cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore – gan fod y gwersi yn dechrau am 8.50 a.m. ac ni ellir fforddio colli munud o amser dysgu yn ystod y dydd.

*Everyone is reminded of the importance of arriving punctually in school every morning – as lessons begin at 8.50 a.m., and we cannot afford to miss a minute of learning time during the day.*

## ENILLWYR DO-JOS *WINNERS*

Bydd y dosbarth sy'n ennill y mwyaf o bwyntiau do-jos yr hanner tymor hwn yn cael dod i'r ysgol yn eu dillad eu hunain ddydd Gwener nesaf, Hydref 27ain. Bydd y dosbarth buddugol yn cael gwybod ddydd Mercher nesaf (trwy'r app) er mwyn rhoi rhybudd ar gyfer dydd Gwener iddynt.

*The class that wins the highest number of do-jo points this half term will be rewarded by coming to school in their own clothes next Friday, October 27th. The winning class will be informed (via the app) next Wednesday in order to give them sufficient notice for Friday.*

## GWOBR YSGOL – *SCHOOL PRIZE*.

Bydd disgyblion unigol yn ennill Gwobr yr Ysgol am waith canmoladwy ymhob dosbarth bob hanner tymor. Bydd hyn yn digwydd ar ffurf cerdyn post fydd yn cael ei anfon i gyfeiriad cartref yr enillwyr. Gobeithir y bydd y drefn hon yn ei lle cyn diwedd yr hanner tymor hwn.

*Individual pupils from each class will win the School Prize for meritorious work in class every half term. This will be in the form of a post card sent to the home address. It is hoped that this process will begin by the end of this half term.*

## GWEITHGAREDDAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

| | |
|---|---|
| **24.10.17** | Gwibdaith addysgol Blwyddyn 5 a 6 i Blitz Hill – *Years 5 and 6 educational outing to Blitz Hill.* |
| **25.10.17** | Gŵyl Ddiolchgarwch yr ysgol – *School's Harvest Thanksgiving Festival.* |
| **25.10.17** | Ail sesiwn Menter a Busnes gyda disgyblion Blwyddyn 5 – *Second session of Business and Initiative activity with Year 5 pupils.* |
| **26.10.17** | Disgo Hwyl Hydref – *Autumn Fun Disco* – 3-4 p.m. (Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 – *Reception, Years 1 and 2)* & 4.15-5.15 p.m. (Blwyddyn/*Years* 3,4,5,6) |
| **27.10.17** | Ymarfer olaf i unigolion ar gyfer gala nofio'r Urdd – *Last practice for the individuals competing at the Urdd swimming gala.* |
| **27.10.17** | Ysgol yn cau am wyliau'r hanner tymor – *School closes for the half term holiday.* |

## Dewis cinio – wythnos 1 - *Dinner choice – week 1*

## PROFION LLYTHRENNEDD A RHIFEDD 2018 *LITERACY AND NUMERACY TESTS.*

Fel y gwyddoch, bydd disgyblion Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6 yn eistedd profion Llythrennedd a Rhiedd cenedlaethol yn flynyddol. Er ei fod yn edrych ymhell i ffwrdd, fe'ch hysbysir y cynhelir y profion ar gyfer y flwyddyn addysgol bresennol o **Fai 2il i'r 9fed 2018.**

*As you know, Years 2,3,4,5 and 6 pupils participate annually in National Literacy and Numeracy tests. Although it seems a long way away, you are informed that the tests will be held from **May 2nd to 9th.2018** during the current academic year.*